**Rhif:** WG30438

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Cymorth ar gyfer blynyddoedd sylfaen

Dyddiad cyhoeddi: 19 Rhagfyr 2016

OGL © Hawlfraint y Goron 2016 ISBN digidol 978 1 4734 8135 0

# Cymorth ar gyfer blynyddoedd sylfaen

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Sefydliadau addysg uwch, sefydliadau addysg bellach, darparwyr addysg uwch eraill, ac ymatebwyr i'r ymgynghoriad. |
| **Trosolwg** | Crynodeb o'r ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gymorth ar gyfer blynyddoedd sylfaen. |
| **Camau i'w cymryd** | Dim – er gwybodaeth yn unig. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon i:<br>Is-adran Addysg Uwch<br>Y Gyfarwyddiaeth Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br>e-bost: HEDConsultationsMailbox@cymru.gsi.gov.uk |
| **Copïau ychwanegol** | Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/ymgynghoriadau |
| **Dogfennau cysylltiedig** | *Cymorth ar gyfer blynyddoedd sylfaen* (2016)<br>https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/sites/default/files/consultation-documents/160303-fy-consultation-doc-cy.pdf |

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **2** |
| **Crynodeb** | **3** |
| **Ymatebion** | **4** |
| **Cwestiynau** | **5** |
| **Ymateb Llywodraeth Cymru** | **10** |
| **Atodiad: Rhestr o’r ymatebwyr [nid yw yn y ddogfen]** | |

# Cyflwyniad

1. Ymgymerodd Llywodraeth Cymru ag ymgynghoriad[1] ar ddarpariaeth cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n cymryd cyrsiau israddedig â blwyddyn sylfaen. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ac yn darparu ymateb Llywodraeth Cymru.

[1] *Cymorth ar gyfer blynyddoedd sylfaen*, Llywodraeth Cymru, 2016, WG28123.

# Crynodeb

2. Bu rhywfaint o ddadlau yn y sectorau addysg uwch a bellach am gymorth ar gyfer blynyddoedd sylfaen sydd, ymhlith pethau eraill, yn ymestyn hyd rhai graddau israddedig trwy ychwanegol blwyddyn o astudio. Mae graddau israddedig yn para pedair blynedd yn lle'r tair blynedd arferol. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y ddarpariaeth hon fel un a allai achosi problemau oherwydd ei bod 1) yn beichio myfyrwyr â blwyddyn ychwanegol o ddyled a 2) yn cynyddu costau i'r Lywodraeth Cymru.


3. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 3 Mawrth a 26 Mai 2016. Derbyniwyd tri deg un o ymatebion. Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i'r rheiny a ymatebodd.

4. Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysoli'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac wedi pennu nad oes digon o dystiolaeth i wneud newid i gymorth myfyrwyr ar yr adeg hon. Serch hynny, nid yw'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi dangos bod pryderon Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r ddarpariaeth hon yn ddi-sail. Mae dau bryder sylweddol yn parhau.

# Ymatebion

5. Yn ôl grŵp, daeth yr ymateb mwyaf o'r sector addysg uwch, fel y mae'r crynodeb isod yn dangos. Ceir rhestr lawn o'r ymatebwyr yn atodiad 1.

**Ffigwr 1**
Nifer yr ymatebwyr, yn ôl grŵp



## Cwestiynau

6. Gwnaethom ofyn nifer o gwestiynau. Daeth nifer o themâu cyffredin i'r amlwg yn erbyn pob un ac maent wedi'u crynhoi isod. Mae'r ymatebion llawn wedi'u cyhoeddi ar wahân.

**Cwestiwn 1 - Rydym wedi amlinellu cyfres o bryderon mewn perthynas â darpariaeth blwyddyn sylfaen, yn bennaf ei bod yn cynrychioli gwerth am arian gwael ac nid yw'n darparu unrhyw fudd amlwg i'r myfyriwr o'i chymharu â'r llwybrau amgen sydd ar gael at addysg bellach. A ydych yn cytuno â'r dadansoddiad hwn? Pam?**

7. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr, ond nid pob un, yn anghytuno â'r cynnig hwn. Roedd y safbwynt hwn yn dilyn llinellau sector yn fras. Roedd sefydliadau addysg uwch (SAUau) a'u cynrychiolwyr yn anghytuno i raddau helaeth, ac roedd sefydliadau addysg bellach (SABau) a'u cynrychiolwyr yn tueddu i gytuno. Roedd y safbwynt ymhlith Undebau Llafur yn gymysg. Roedd ysgolion yn anghytuno.

8. Daeth nifer o themâu i'r amlwg.

*Mae blynyddoedd sylfaen yn llwyddo*

9. Efallai'r thema gyntaf i'w nodi yw barn gref ymatebwyr o SAUau, yn ogystal ag ymatebwyr eraill, yw bod y cyrsiau hyn yn llwyddiannus wrth gynorthwyo'r grwpiau targed i fynd ymlaen i astudiaeth israddedig arferol. Cynigiodd nifer ystadegau o'u sefydliadau eu hunain a sylwadau oddi wrth fyfyrwyr, neu arolygon myfyrwyr, i ategu eu safbwynt. Roedd rhai ymatebwyr yn feirniadol o'r diffyg data cadarn canfyddedig yn y ddogfen ymgynghori.

10. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod y cyrsiau hyn yn ymddangos i fod yn llwyddiannus ac yn cytuno y dylid defnyddio data cadarn i fonitro digonolrwydd dilyniant yn ofalus. Mae lefel uchel o ddilyniant yn hanfodol o ystyried bod myfyrwyr yn talu costau'r cyrsiau hyn.

*Yr amgylchedd sefydliadol*

11. Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at y cyfleusterau academaidd ardderchog mewn SAUau, addysgu gan staff academaidd rheolaidd, gofal bugeiliol ardderchog, cyfleusterau ategol cryf (er enghraifft, chwaraeon) ac amrywiaeth o fanteision eraill – academaidd ac fel arall – y mae Llywodraeth Cymru yn cytuno eu bod yn cronni i fyfyrwyr mewn SAUau yng Nghymru.

*Cyflwyniad i addysgu uwch*

12. Yn yr un modd, nododd ymatebwyr fod y cyrsiau sylfaen yn cynnig cyflwyniad a phontio llwyddiannus i addysg uwch.

*Gwerth am arian*

13. Aeth yr ymatebwyr i'r afael â mater gwerth am arian. Nododd rhai nad yw asesiad o werth am arian yn bosibl heb ddata gwrthrychol ar lwyddiant blynyddoedd sylfaen o'u cymharu â llwybrau

eraill. Awgrymodd rhai eraill, SAUau yn bennaf, fod y canlyniadau sy'n cael eu cyflawni yn cynrychioli gwerth am arian (mewn termau absoliwt). Dadleuodd SABau fod blynyddoedd sylfaen yn cynrychioli gwerth am arian gwael o'u cymharu â'r dewisiadau amgen.

14. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr angen am ddata mwy cadarn i asesu gwerth am arian. Nid ydym yn argyhoeddedig dim ond oherwydd bod canlyniadau llwyddiannus yn cael eu cyflawni bod hyn yn arddangos, yn absenoldeb cymhariaeth â llwybrau eraill at addysg uwch, gwerth am arian digonol.

*Grwpiau targed*

15. Daeth pedwar grŵp targed ar gyfer y ddarpariaeth hon i'r amlwg o'r ymatebion:

- unigolion o grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch;
- unigolion heb gyflawniad academaidd digonol i astudio ar y lefel israddedig arferol;
- unigolyn sy'n trosi o un ddisgyblaeth academaidd i un arall, fel arfer pwnc STEM; a
- myfyrwyr aeddfed.

16. Nid yw'r grwpiau hyn yn nacáu'r naill y llall.

*Argaeledd cymorth ariannol*

17. Nododd nifer o ymatebwyr fod argaeledd cymorth ariannol i fyfyrwyr yn rheswm pwysig dros wneud y cyrsiau hyn yn ddeniadol. Mae'r cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr sy'n ymgymryd â chyrsiau addysg uwch dynodedig (yn enwedig cynhaliaeth cynnal) yn sylweddol fwy na'r hyn sydd ar gael i gefnogi astudio mewn llwybrau eraill.

18. Efallai bod cyllid yn cynrychioli rhwystr i astudio. Er bod cyfyngiadau o ran adnoddau yn bodoli, byddai'n well os nad oedd argaeledd cymorth yn cyfyngu'r dewis.

*Cyfyngiadau ar gyllid AB ac argaeledd dysgu oedolion*

19. Awgrymodd rhai ymatebwyr efallai bod cyfyngiadau ar gyllid y sector addysg bellach wedi arwain at rywfaint o'r twf yn y cyrsiau hyn mewn SAUau.

20. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol nad yw cyllid i SABau wedi tyfu yn y blynyddoedd diwethaf. Er bod SABau yn gyfrifol am bennu'r ffordd orau i ddyrannu eu hadnoddau, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod yn rhaid darparu ar gyfer pwysau ariannol ac efallai bod y cyllid cyfyngedig sydd ar gael ar gyfer addysg oedolion yn effeithio ar argaeledd cyrsiau lefel 3 a mynediad i rai grwpiau. Efallai y bydd hyn yn fwyaf amlwg ar gyfer addysg i'r rheiny dros 25 oed. Byddai'n well petai cynnig eang o ddarpariaeth mynediad ar gael mewn amrywiaeth o leoliadau a mannau.

*Dyled ychwanegol gan fyfyrwyr*

21. Awgrymodd rhai ymatebwyr fod dyled ychwanegol yn broblem; yn ôl rhai eraill, roedd yn fater o ddewis personol.

*Diffyg tystiolaeth ddigonol i wneud penderfyniad deallus*

22. Nododd rhai ymatebwyr fod tystiolaeth annigonol - yn y ddogfen ymgynghori ac yn ehangach – i wneud penderfyniad deallus ar newid mewn polisi ar gyrsiau sylfaen.

*Darpariaeth genedlaethol a rhyngwladol*

23. Nododd SAUau fod myfyrwyr ar gyrsiau sylfaen yng Nghymru yn dod o'r DU a thu hwnt, gan roi hwb i refeniw SAUau Cymru, yn ogystal â'r economi.

*Tegwch rhwng myfyrwyr Cymreig a myfyrwyr eraill*

24. Credai rhai ymatebwyr y byddai'n annheg trin myfyrwyr Cymreig yn wahanol i'w cyfoedion o fannau eraill yn y Deyrnas Unedig, petai cyllid yn cael ei dynnu'n ôl.

**Cwestiwn 2 - Pa un o'r pedwar cynnig ydych chi'n meddwl dylid ei roi ar waith? Pam?**

25. Dadleuodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr mai ‘gwneud dim byd’ yw'r opsiwn a ffafrir. Dadleuodd rhai, ond nid SAUau yn unig, fod y cyrsiau hyn yn llwyddiant a dylid eu cefnogi. Dadleuodd rhai eraill fod diffyg tystiolaeth ddigonol i seilio unrhyw newid arni.

26. Dadleuodd rhai, SABau yn bennaf, fod y cyrsiau hyn yn cynrychioli gwerth am arian gwael a dylai cymorth ddod i ben.

27. Dewisodd nifer fach o ymatebwyr eraill opsiynau eraill. Dewisodd un SAU, yn Lloegr, 'gwneud dim byd' ond nododd y gallai darparu ffi ostyngedig a chynhaliaeth cynnal fod yn opsiwn hefyd, ond yn llai ffafriol.  Roedd un ymatebydd o SAU yn cytuno â thynnu cymorth 'lle mae llwybrau amgen ar gael'. Awgrymodd un ymatebydd y dylid cadw twf a lefelau ffioedd o dan adolygiad, yn enwedig mewn meysydd nad ydynt yn STEM.

**Cwestiwn 3 - A ydych yn meddwl y bydd ein diffiniad o flynyddoedd sylfaen ym mharagraff 30 yn cofnodi'r math o ddarpariaeth rydym wedi'i thrafod?**

28. Roedd nifer o ymatebwyr yn cytuno â'r diffiniad. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr naill ai'n anghytuno neu'n nodi nad oedd y pwyntiau a gyflwynwyd yn gyfystyr â diffiniad.

29. Awgrymodd ymatebwyr ffactorau ychwanegol gan gynnwys a yw'r flwyddyn yn flwyddyn baratoi integredig, cefndir cymdeithasol-economaidd y myfyrwyr a gofynion mynediad.

**Cwestiwn 4 - Yn eich barn chi, beth fydd yr effaith ar ehangu mynediad os bydd Gweinidogion Cymru yn terfynu cymorth i'r cyrsiau? A ydych yn meddwl y byddai unrhyw grwpiau penodol dan anfantais oherwydd y polisi hwn? Beth yw nodweddion y bobl sy'n cymryd y cyrsiau hyn?**

30. Roedd ymatebion i'r cwestiwn pwysig hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar yr effaith ar y grwpiau targed a nodwyd uchod, gan nodi y byddai ehangu mynediad yn dioddef. Efallai y bydd dileu neu leihau cymorth yn atal myfyrwyr o aelwydydd incwm is, efallai'n enwedig o ardaloedd difreintiedig, myfyrwyr aeddfed sydd angen cynhaliaeth cynnal a'r rheiny o gefndiroedd dan anfantais addysgol.

31. Hefyd codwyd effaith wahaniaethol ar fyfyrwyr anabl, oherwydd nododd rhai SAUau fod myfyrwyr anabl yn gwneud cyfran fwy o'r rheiny ar gyrsiau sylfaen nag yn y boblogaeth AU yn gyffredinol. Gwnaethpwyd pwynt tebyg ar gyfer merched ar gyrsiau sylfaen STEM a chyrsiau sylfaen rhan amser. Hefyd nodwyd bod cyrsiau sylfaen STEM yn gymharol boblogaidd ac felly efallai y bydd effaith anghymesur arnynt.

32. Nododd SABau y gallai'r effaith fod yn fach iawn os bydd y dewisiadau amgen yn y sector AB yn cael eu cyfathrebu'n glir a chyllid yn cael ei wella.

**Cwestiwn 5 - Sylwadau eraill**

33. Gwnaeth nifer o ymatebwyr sylwadau ychwanegol. Mae'r canlynol o bwys:

- yr angen i unrhyw gynigion alinio ag argymhellion adolygiad Diamond[2];
- y posibilrwydd o sefydlu Awdurdod Addysg Drydyddol sy'n goruchwylio addysg bellach ac uwch (adolygiad Hazelkorn)[3]; a
- strategaeth dymor-hir ar gyfer addysg bellach ac uwch.

[2] Adolygiad o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru.
[3] Adolygiad o Reoleiddio a Chynnal Trosolwg o Addysg a Hyfforddiant ôl-Orfodol yng Nghymru.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

34. Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysoli’r ymatebion i'r ymgynghoriad ac wedi pennu nad oes digon o dystiolaeth i wneud newid i gymorth myfyrwyr ar yr adeg hon.

35. Serch hynny, nid yw'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi dangos yn ddigon cryf bod pryderon y Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r ddarpariaeth hon yn ddi-sail. Mae dau bryder sylweddol yn parhau. Trafodir y rhain yng nghyd-destun y pedwar grŵp targed ar gyfer y ddarpariaeth hon, gan gydnabod nad yw'r grwpiau hyn yn nacáu'r naill y llall.

**Unigolion o grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch**

36. Dyma'r grŵpiau y mae strategaethau ehangu mynediad yn berthnasol iddo fel arfer. Ein pryder cyntaf yw'r gost i'r grŵp hwn a'r safbwynt polisi goblygedig. Gall unigolion sydd wedi'u tangynrychioli mewn addysg uwch gael mynediad at addysg uwch (trwy flwyddyn sylfaen) ar gost uwch i'w hunain yn unig (un flwyddyn o ddyled) o'u cymharu â'r myfyrwyr hynny heb eu tangynrychioli. Er bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod y cyrsiau hyn yn cynrychioli un yn unig o nifer o ffyrdd y mae SAUau yn ehangu mynediad, dyma sefyllfa wrthnysig braidd.

37. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod yn rhaid darparu adnoddau ar gyfer gweithgarwch ehangu mynediad ac mewn system sy'n dibynnu ar fyfyrwyr yn talu am ffioedd a chostau cynnal trwy fenthyciadau a grantiau mae'r Llywodraeth yn eu darparu, nid yw'n syndod bod y cyrsiau hyn wedi dod i'r amlwg. Ond ni allwn anwybyddu problem o ofyn i'r rheiny a dangynrychiolir mewn addysg uwch dalu mwy am eu haddysg.

**Unigolion heb gyflawniad academaidd digonol i astudio ar y lefel israddedig arferol**

38. Roedd darparu blynyddoedd sylfaen i'r grŵp hwn yn rheswm pwysig dros ymgymryd â'r ymgynghoriad hwn. Mae ymatebion i'r ymgynghoriad yn awgrymu bod hwn yn grŵp targed i'r ddarpariaeth hon.

39. Pan ofynnwyd am gost blynyddoedd sylfaen, tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at y cyfleusterau academaidd ardderchog mewn SAUau, addysgu gan staff academaidd rheolaidd, gofal bugeiliol ardderchog, cyfleusterau ategol cryf (er enghraifft, chwaraeon) ac amrywiaeth o fanteision eraill – academaidd ac fel arall – y mae Llywodraeth Cymru yn cytuno eu bod yn cronni i fyfyrwyr mewn SAUau yng Nghymru.

40. Nid yw Llywodraeth Cymru yn dadlau bod y manteision hyn yn cronni ond mae'n ymwybodol bod hyn yn ymddangos i fod, mewn gwirionedd, y model traddodiadol o ddarparu addysg israddedig sy'n berthnasol i'r hyn sy'n ddarpariaeth lefel 3 yn bennaf.

41. Nid yw'n glir a ellir cyfiawnhau’r lefel hon o gost lle mae dewisiadau amgen yn bodoli ac yn gallu cael eu datblygu ymhellach ar gyfer y grŵp penodol hwn. Ceir amrywiaeth o ddarpariaeth ar lefel 3 mewn nifer o leoliadau ledled Cymru. Er y gallai fod yn wir bod SAUau yn fedrus wrth ddarparu hyn ochr yn ochr â'u cynnig traddodiadol, nid yw'r glir i Lywodraeth Cymru a yw cynnal darpariaeth gymharol ddrud a allai gystadlu â darpariaeth

sydd eisoes yn bodoli, neu ei disodli, yn ddull polisi rhesymegol o weithredu. Dyma ein hail bryder ac nid yw'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn ei chwalu.

**Unigolion sy'n trosi o un ddisgyblaeth academaidd i un arall**

42. Nododd ymatebwyr y gallai blynyddoedd sylfaen hefyd gael eu defnyddio fel cwrs trosi i ganiatáu myfyriwr i ailgyfeirio eu hunain tuag at ddisgyblaeth arall cyn cychwyn ar astudio israddedig. Ar ddadansoddiad cychwynnol, ymddengys bod hyn yn llai o broblem na'r achosion eraill; os yw myfyrwyr yn wirioneddol yn ymgymryd â'r mathau hyn o gyrsiau trosi oherwydd dymuniad i gychwyn ar gwrs academaidd a gyrfa gwahanol yna byddai'r ddyled ychwanegol yn fater o ddewis personol deallus. Yn ôl pob tebyg, mae gan fyfyrwyr sy'n gwneud cais i'r cyrsiau trosi hyn lefel o gyflawniad academaidd a fyddai'n galluogi iddynt gael mynediad at AU mewn disgyblaeth arall, a bydd dilyniant ymhlith y grŵp hwn yn uchel iawn.

**Myfyrwyr aeddfed**

43. Awgrymodd ymatebwyr fod myfyrwyr aeddfed yn grŵp targed pwysig. Ymddengys yn debygol bod yn rhaid i fyfyrwyr aeddfed berthyn i un o'r categorïau uchod i flynyddoedd sylfaen fod yn wirioneddol ddefnyddiol ac mae'r ystyriaethau uchod yn berthnasol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn nodi y gallai argaeledd cynhaliaeth cynnal fod yn gymharol bwysig i'r grŵp hwn.

**Adeiladu ar nodweddion positif blynyddoedd sylfaen**

44. Er bod pryderon yn parhau, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r hyn sy'n ymddangos i fod yn amrywiaeth o nodweddion positif blynyddoedd sylfaen sy'n gallu darparu gwybodaeth ar gyfer datblygiad darpariaeth mewn lleoliadau eraill.

**Gweithredoedd Llywodraeth Cymru**

45. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y farn y mae nifer o ymatebwyr wedi'i mynegi bod tystiolaeth annigonol ar hyn o bryd i alluogi gwneud penderfyniad clir ynglŷn â chymorth i flynyddoedd sylfaen. Ni fydd unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud ar unwaith.

46. Fodd bynnag, fel y nodwyd, nid yw'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn wedi datrys pryderon Llywodraeth Cymru. Felly mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu:

- monitro nifer y myfyrwyr sy'n cael cymorth ar y cyrsiau hyn;
- monitro'r gyfradd dilyniant i flwyddyn gyntaf astudio israddedig[4]; a
- cychwyn ymchwil a gwerthuso fel bo angen, gan gynnwys astudiaeth o werth am arian o bosibl.

[4] Bydd data perthnasol yn cael ei ryddhau tuag at ddiwedd y flwyddyn galendr. Mae'r Llywodraeth Cymru wedi trefnu'r adolygiad monitro cyntaf ar gyfer diwedd 2016.